

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Little Scholars
NURSERY

MEITHRINFA
Ysgolheigion Bach







Croeso

Ein cenhadaeth yw cynnig amgylchedd diogel, cefnogol, cynhwysol a sefydlog sy'n arloesol, ysgogol ac yn heriol a lle mae pob plentyn yn ffynnu, yn dysgu ac yn gwneud ffrindiau newydd ynddo.

Rydym yn cefnogi plant i fod yn unigolion galluog, hyderus ac annibynnol. Rydym yn cynnal amgylchedd diogel a chynhwysol o ran datblygiad ar gyfer babanod (0-2), plant bach (2-3) a phlant oed cyn ysgol (3-5).

Ein nod yw cynnig profiad dysgu ysgogol a gofal plant sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol, gwybyddol a chreadigol pob plentyn. Ein nod yw cefnogi a meithrin chwilfrydedd naturiol y plant, a'u hannog i fod yn ddysgwyr gydol oes. Rydym wedi ymrwymo i'r teuluoedd yn ein cymuned, ac i gynnig cefnogaeth ac anogaeth.

Ein Gwerthoedd:

- **Ymddiriedaeth a gofal o safon**

Pan mae rhieni'n chwilio am wasanaethau gofal dydd o safon, mae angen iddynt ddod o hyd i ganolfan sydd â staff y gallant ymddiried ynddynt. Rydym yn gwella ein gwasanaethau'n barhaol i ddiwallu anghenion y plant a'r teuluoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

- **Dysgu am oes**

Rydym yn rhannu cyfrifoldeb i gefnogi a meithrin chwilfrydedd y plant a'n hunain, a'u gallu i ddysgu. Rydym yn datblygu profiad staff cadarnhaol sy'n cyfateb i brofiad y plentyn, gan ein bod yn credu bod llwyddiant y ddau'n rhyngddibynnol a bod lles yn flaenoriaeth. Rydym yn dysgu ochr yn ochr â'r plant a'u teuluoedd ac yn cofleidio'r cyfle i ddysgu a thyfu bob dydd.

- **Partneriaeth**

Mae perthnasoedd parchus yn bwysig iawn a dyna'r sail y mae ein sefydliad yn gweithio arni. Rydym yn credu bod modd mesur ansawdd y gofal yr ydym yn ei gynnig yn ôl ansawdd y perthnasoedd sydd gennym â'r plant, y teuluoedd, y gweithwyr, y cydweithwyr a chyrrff rheoleidiol. Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod y perthnasoedd hyn yn rhai parchus; cynnes a gofalgarg; onest ac agored; teg a chyfartal.





Pam ein dewis ni?

Rydym yn deall yn llawn bod plant yn dysgu drwy chwarae ac rydym yn cynnig profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog.

Rydym yn credu bod plant yn haeddu'r safon uchaf o ofal er mwyn iddynt gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Rydym yn rhoi'r cyfle i blant ddefnyddio eu dychymyg a'u creadigrwydd.

Ein tasg ni yw eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu taith, sef yr ysgol a thu hwnt. Byddwn yn rhoi'r sylfeini a'r wybodaeth i'w helpu gyda llythrennedd a rhifedd ar gyfer yr ysgol.

- Mae archwiliadau Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) wedi adlewyrchu **safon rhagorol ein gofal**. Canfu'r archwiliad diweddaraf bod y plant yn hapus, wedi meithrin perthnasoedd agos â'r staff, a bod profiadau o chwarae a dysgu'n bositif iawn, gan fodloni amrywiaeth o anghenion a galluoedd.
- Mae gennym gynllun '**Meithrinfa Ddiogel yn yr Haul**' ar waith.
- Rydym yn cymryd rhan yng **Nghynllun Gwên** Llywodraeth Cymru i hyrwyddo hylendid deintyddol.
- Rydym yn **hyrwyddo bwyta'n iach** ac wedi cyflawni **Gwobr Byrbryd Iachus Safon Aur Plws**.

Agwedd gymunedol

Mae eich plant wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud.

Rydym yn gweld ein hunain yn rhan o'ch teulu estynedig, yn freintiedig ac yn falch o ofalu am y person anwylaf yn eich bywyd. Mae gweld pob plentyn yn datblygu ac yn tyfu yn ystod eu hamser yn y feithrinfa yn rhoi llawer iawn o foddhad i ni.

Mae rhieni'n rhan bwysig iawn o'n cymuned – byddwch yn cael eich gwahodd i'n cyngherddau carolau a'n garddwestau, i ddod â'ch plant i gwrdd â Siôn Corn ac i fynd i ddigwyddiadau arbennig i ddatlu cyflawniadau eich plentyn.

Mae croeso i chi ymweld â'ch plentyn neu ein ffonio i weld sut mae eich plentyn ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Hefyd, mae croeso i chi ddod i fwydo eich baban ar y fron. Ar ddechrau pob sesiwn, byddwn yn gwrando'n astud ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthym am sut mae eich plentyn yn teimlo ac unrhyw anghenion arbennig, a byddwn yn rhoi adroddiad manwl i chi am ddiwrnod eich plentyn pan fyddwch yn dod i'w casglu.

Rydym yn sylweddoli ar adegau efallai na fydd yn bosibl cysylltu â ni'n bersonol. Dim ond galwad ffôn neu alwad rithwir i ffwrdd yw'r tîm.

“Chwarae
yw’r ffurf uchaf
ar ymchwil”

Albert Einstein





Ein dull gweithredu

Rydym yn cofleidio'r cysyniad bod plant yn dysgu drwy chwarae a bod angen profiad dysgu amrywiol a chyfoethog arnynt.

Bob dydd, mae ein plant yn cymryd rhan mewn darllen, straeon, canu, chwarae rôl a gemau i hyrwyddo llythrennedd a rhifedd. Rydym yn rhoi'r blociau adeiladu ar gyfer dysgu pellach i'r plant ar gyfer yr ysgol. Ymgymerir â chelf a chrefft yn gyson, gyda phlant yn cynhyrchu gwaith i fynd ag e adre.

Mae chwarae y tu allan a gweithgareddau corfforol yn rhan bwysig o ddiwrnod ein plant. Rydym yn credu y dylai unrhyw weithgareddau y gallwch eu gwneud y tu mewn fod y tu allan lle bynnag y bo'n bosibl. Mae gennym erddi mawr ar gael i bob grŵp oedran, gyda lle i blannu llysiau a pherlysiau i'w defnyddio yn ein cegin ein hunain.

Ein cyfleusterau a'n hadnoddau

Rydym yn elwa ar gyfleusterau rhagorol – mae'r rhain yn cynnwys:

- Gerddi mawr a phreifat ar gyfer chwarae a gweithgareddau tu allan, gan gynnwys cysgodfeydd rhag y glaw.
- Ystafell chwarae rôl lle gall plant o wahanol oedrannau ddod ynghyd i chwarae.
- Ystafelloedd mawr a braf ar gyfer pob un o'n grwpiau oedran – babanod, plant bach a phlant cyn oed ysgol – gyda chyfarpar a chyfleusterau chwarae priodol i'r oedran.
- Ystafell crudiau wedi'i neilltuo er mwyn i fabanod allu cysgu'n ddi-dor ar unrhyw adeg yn ystod y dydd, yn unol â dymuniadau neu arferion y rhieni lle bynnag y bo'n bosibl. Mae ein staff yn monitro'r ystafell hon drwy'r amser.
- Gwelyau bach lle gall bob plentyn bach gysgu ar ôl cinio, gyda phob plentyn yn defnyddio'r un gwely bob diwrnod.
- Rydym yng nghanol campws y Brifysgol gyda maes parcio penodol ar gyfer gollwng a chasglu plant.
- Mae gennym safon uchel iawn o ddiogelwch ac rydym yn ymlynu wrth brotocolau llym i gadw ein plant yn ddiogel.
- Mae ein plant bach a'n plant cyn-ysgol yn elwa o sesiynau chwaraeon a theithiau a digwyddiadau allgyrsiol eraill, sydd wedi'u cynnwys yn ffi'r feithrinfa, gyda'r staff yn parhau i ymarfer drwy gydol yr wythnos. Rydym yn deall pwysigrwydd cael ymarfer corff rheolaidd er mwyn i blant gynnal corff a meddwl iach.





Ein staff

Rydym yn cynnig profiad gwych i'n staff, gan gyfateb i brofiad y plant dan ein gofal, ac yn buddsoddi yn natblygiad pob aelod o'n tîm.

Mae hyn yn ein helpu i gadw tîm sydd wir â lles y plant ar flaen eu meddwl. Rydym yn cynnig cyfleoedd i staff gael hyfforddiant ym mhob maes, gan wneud yn siŵr bod gennym y sgiliau, y wybodaeth, yr agwedd a'r ymddygiad priodol, sy'n hanfodol i'n llwyddiant.

Mae ein holl staff creiddiol yn gymwysedig hyd at lefel 3 mewn Gofalu am Blant a'u Rheolaeth, ac mae Arweinwyr yr Adran yn gymwysedig hyd at lefel 5 mewn Ymarfer a Rheolaeth Uwch.

Mae holl nyrsys a chynorthwy-wyr y feithrinfa wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf paediatrig ac wedi'u cymhwyso hyd at lefel 2 mewn Hylendid Bwyd.

Dysgu plant i fod yn annibynnol

Rydym yn annog annibyniaeth ar bob cam mewn datblygiad plant.

Rydym yn helpu babanod i fwydo eu hunain, dod o hyd i'w hesgidiau a'u cotiau eu hunain, a'u gwisgo wrth iddynt dyfu. Rydym yn helpu'r rhai hŷn i fynd i'r toiled ar eu pennau eu hun, a byddwn gerllaw rhag ofn bod angen cymorth arnynt. Mae hyn yn helpu i'w paratoi ar gyfer yr ysgol lle byddant yn gorfod gwneud y pethau hyn dros eu hunain. Mae'r plant yn ymfalchïo pan rydym yn eu canmol am fod mor glyfar ym mhob her newydd y maent yn ymgymryd â hi.

Hefyd, rydym yn annog plant i gymryd risgiau dan oruchwyliaeth mewn amgylchedd a reolir, gan eu hannog i fforio'r byd tu allan yn ddiogel yn enwedig. Mae gennym leoedd tân yn y gerddi, ac mae'r plant yn adeiladu cuddfâu ac yn dringo coed. Rydym hefyd yn elwa ar ymwelwyr allanol, fel Zoolab, sy'n dod ag amrywiaeth o bryfed a madfallod, a'r RSPB, sy'n ein helpu i archwilio'r ardaloedd tu allan yn llawn. Mae'r ddau bartner hyn yn ein helpu i addysgu'r plant am ein bywyd gwyllt, sut i'w gwarchod a pha mor bwysig mae'r rhain i'n hamgylchedd.





Ein bwyd

Mae ein cogydd yn paratoi prydau ffres bob dydd, gydag iechyd wrth galon yr holl fwyd a baratowyd yn y feithrinfa.

Mae gennym fwydlen dreigl bedair wythnos, sy'n cael ei newid sawl gwaith y flwyddyn ac yn cynnig llawer o amrywiaeth a'r cyfle i'r plant brofi bwydydd newydd.

Rydym wedi ennill gwobr Byrbryd Iachus Safon Aur Plws, ac yn hyrwyddo bwyta'n iach. Mae gennym sgôr lefel 5 am hylendid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Ymgartrefu

Cyn i'ch plentyn ddechrau yma, byddwn yn trefnu sesiynau byr lle gallant ddod i mewn heb bwysau i gwrdd â'r staff a chael blas ar yr amgylchedd.

Hefyd, mae hyn yn helpu'r rhieni i ddatblygu perthnasoedd â'n staff yn raddol, a dod yn gyfarwydd ac yn gyffyrddus â gadael plant dan ein gofal. Yn ystod yr amser hwn, mae'r plant yn cael amser i ddod i adnabod eu prif weithiwr a datblygu perthynas â nhw a'r

staff eraill. Mae cyfeillgarwch yn dechrau datblygu yn ystod y cyfnod hwn, a phan ddaw'r amser iddynt dreulio sesiwn lawn yma, nid yw'n frawychus neu'n anghyfarwydd iddyn nhw na'r rhieni.

Aberthu Cyflog

Mae'r Brifysgol yn gweithredu Cynllun Aberthu Cyflog i staff y brifysgol sy'n defnyddio Meithrinfa'r Brifysgol. Mae'r cynllun hwn yn galluogi rhieni i dalu am ffioedd y feithrinfa drwy ddiwyddu cyflog. Bydd hyn yn cyflwyno toriadau llawn rhag treth ac yswiriant gwladol (NI) ar y didyniadau, cyn belled â'u bod nhw am gyfanswm ffioedd y feithrinfa a godir.



Ein hamcanion

Babanod (0-2)

- Cynnig diogelwch, cynhesrwydd, cariad ac anwyldeb
- Diwallu anghenion sylfaenol y plentyn unigol, bwydo, newid, cysgu ac ati.
- Cynnig amrywiaeth o weithgareddau ysgogol sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad gweledol, clywedol a cyffyrddol babanod
- Cynorthwyo datblygiad cymdeithasol, corfforol ac emosiynol
- Gwneud i bob plentyn deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi
- Rhoi cyfleoedd cyfartal i bob plentyn
- Cynnig cyfleoedd i blant fod yn greadigol a'u hamddiffyn a'u goruchwyllo'n briodol ar yr un pryd
- Defnyddio iaith i gryfhau a rhoi ystyr i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Ymgwyfarwyddo plant ag amser grwpiau bychain, canu, edrych ar lyfrau, ac ati.

Plant bach (2-3)

- Rhoi amgylchedd lle gall pob plentyn ddatblygu ymdeimlad o ddiogelwch, cynhesrwydd, cariad ac anwyldeb
- Gwneud i bob plentyn deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi
- Rhoi cyfleoedd cyfartal i bob plentyn
- Cynnig cyfleoedd i blant fod yn greadigol
- Defnyddio iaith i gryfhau a rhoi ystyr i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Ymgwyfarwyddo plant ag amser grwpiau bychain, canu, edrych ar lyfrau, ac ati.
- Rhoi cyfleoedd i'r plentyn ryngweithio â'i gyfoedion ac oedolion
- Galluogi plentyn i feithrin ymdeimlad o ymwybyddiaeth gymdeithasol a gwybodaeth am eu byd.

Cyn-Ysgol (3-5)

- Rhoi ymdeimlad cryf o ddiogelwch ar sail bodlonrwydd ac ymddiriedaeth
- Annog hunanhyder, cyflawniad a hunan-barch
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu
- Rhoi cyfleoedd i'r plentyn ryngweithio â'i gyfoedion ac oedolion
- Datblygu ymwybyddiaeth o anghenion eraill
- Annog annibyniaeth ac ymdeimlad o gyfrifoldeb
- Galluogi'r plentyn i feithrin ymdeimlad o ymwybyddiaeth a gwybodaeth am ei fyf
- Ysgogi ymdeimlad o werthfawrogiad.
- Annog sgiliau cyfathrebu drwy bob math o fynegiant artistig
- Ysgogi annibyniaeth a meddwl yn greadigol
- Annog rhesymu
- Canolbwyntio ar hyrwyddo datblygiad iaith ar draws y cwricwlwm.

Oriau agor

Mae'r feithrinfa ar agor rhwng **8am a 6pm, pum diwrnod yr wythnos**, gyda slotiau ar gael yn y bore a'r prynhawn.

Rydym yn gofyn i chi gyrraedd deng munud cyn amser cau'r feithrinfa fel y gallwn wneud yn siŵr ein bod yn dweud wrthyfch am ddiwrnod eich plentyn.







Cysylltu â ni

Meithrinfa Ysgolheigion Bach

Prifysgol Caerdydd
43-45 Plas y Parc
Caerdydd CF10 3BB

ebost: [littlescholarsnursery@caerdydd.ac.uk](mailto:littleolarsnursery@caerdydd.ac.uk)

Ffôn: +44 (0)29 2087 4135

